
# Gogledd Cymru



# Adroddiad Blynyddol 2017 - 2018


# Rhagarweiniad

**Mae'r GCPhEM yng Nghymru yn gweithio i sicrhau fod ein cymunedau yn fwy diogel, troseddwyr yn cael eu cefnogi ac yn atal pobl rhag bod yn ddioddefwyr. Rydym yn anelu at ddarparu llwybr parhaus i ad-drefnu gweithio mewn partneriaeth gyda gwasanaethau trosedd a chyfiawnder cymdeithasol i gyflawni hyn. Oherwydd hyn mae'r GCPhEM yng Nghymru wedi ymroi i weithio mewn partneriaeth gydag asiantaethau MAPPA i warchod y cyhoedd rhag mynd yn ddioddefwyr niwed difrifol yn ein cymunedau.**

**Rydym yn cydnabod mai'r unig ffordd effeithiol i reoli risg yw trwy weithio ar y cyd gydag asiantaethau dan MAPPA er mwyn diogelu dioddefwyr ac osgoi rhagor o ddioddefwyr yn y dyfodol. Mae MAPPA yn caniatáu i ni gasglu'r gudd-wybodaeth angenrheidiol, arbenigedd a chyfraniad gwerthfawr ein hasiantaethau partner o fewn fframwaith cyfreithiol i allu gwella ein dealltwriaeth o'r risg posibl all ddilyn o ryddhau troseddwyr i'r gymuned a sut mae modd rheoli'r risg yna er mwyn amddiffyn y cyhoedd.**

**Mae'r GCPhEM yng Nghymru a'r holl asiantaethau sy'n gysylltiedig â MAPPA yn gosod amddiffyn y cyhoedd fel eu blaenoriaeth uchaf ac mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu penderfyniad a chyfraniad gwerthfawr holl asiantaethau sy'n gysylltiedig â MAPPA, wedi ymroi i amddiffyn y cyhoedd, wrth hyrwyddo cymunedau mwy diogel yng Nghymru.**





**Amy Rees**
Cyfarwyddwr Gweithredol,
Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM
yng Nghymru

# Beth yw MAPPA?

## Cefndir MAPPA

Cyfres o drefniadau yw MAPPA (Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd) i reoli'r risg a gyflwynir gan y troseddwyr rhyw a threisgar gwaethaf (troseddwyr cymwys am MAPPA) o dan ddarpariaethau rhannau 325 i 327B Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003.

Daw'r trefniadau â gwasanaethau'r Heddlu, y Gwasanaeth Prawf a'r Carchardai ym mhob un o'r 42 Ardal yng Nghymru a Lloegr at ei gilydd yn un Awdurdod Cyfrifol MAPPA.

Mae gan nifer o asiantaethau eraill Ddyletswydd i Gydweithredu (DTC) â'r Awdurdod Cyfrifol. Mae'r rhain yn cynnwys y Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwasanaethau Iechyd, Timau Troseddwyr Ifanc, Y Ganolfan Byd Gwaith a'r Awdurdodau Addysg a Thai Lleol.

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod Cyfrifol benodi dau Gynghorydd Lleyg i eistedd ar Fwrdd Rheoli Strategol (SMB) pob ardal MAPPA ynghyd ag uwch-gynrychiolwyr o bob un o'r Awdurdodau Cyfrifol a'r asiantaethau DTC.

Mae'r Cynghorwyr Lleyg yn aelodau o'r cyhoedd a benodir gan y Gweinidog, sydd heb unrhyw gysylltiad â'r busnes o reoli troseddwyr MAPPA ac sy'n gweithredu fel arsyllwyr annibynnol ond gwybodus; gallant ofyn cwestiynau na fyddai staff proffesiynol yn gweithio yn y maes efallai'n meddwl eu gofyn. Maent hefyd yn cyfrannu eu dealltwriaeth a'u persbectif ar y gymuned leol (lle mae'n rhaid iddynt fod yn byw a bod â chysylltiadau cryf) i'r Bwrdd Rheoli Strategol.

## Sut y mae MAPPA yn gweithio

Mae troseddwyr cymwys am MAPPA yn cael eu pennu ac mae gwybodaeth amdanynt yn cael ei rhannu rhwng asiantaethau fel sail i asesiadau risg a chynlluniau rheoli risg y bobl sy'n eu rheoli neu eu goruchwylio.

Dyna gyn belled ag y mae MAPPA yn mynd yn y rhan fwyaf o achosion. Ond, mewn rhai achosion, mae angen rheolaeth amlasiantaethol strwythuredig. Yn yr achosion hyn cynhelir cyfarfodydd MAPPA rheolaidd lle daw ymarferwyr o'r asiantaethau perthnasol ynghyd.

Mae tri chategori o droseddwyr cymwys am MAPPA:

- **Categori 1** – troseddwyr rhyw cofrestredig;
- **Categori 2** – troseddwyr treisgar yn bennaf sydd wedi eu dedfrydu i 12 mis neu fwy yn y carchar neu i orchymyn ysbyty; a
- **Categori 3** – troseddwyr nad ydynt yn gymwys o dan gategori 1 na 2 ond sy'n cyflwyno risg o niwed difrifol ar y pryd.

Mae tair lefel o reolaeth i sicrhau bod adnoddau'n cael eu targedu lle mae fwyaf angen eu targedu; fel arfer yn ymwneud â risg uwch o niwed difrifol.

- **Lefel 1** yw rheolaeth asiantaethol arferol (h.y. rheolaeth gan yr asiantaeth arweiniol heb unrhyw gyfarfodydd MAPPA ffurfiol);
- **Lefel 2** yw lle mae angen i fwy nag un asiantaeth gyfrannu'n weithredol i reoli'r troseddwr.
- **Lefel 3** yw lle mae'r cynlluniau rheoli risg yn gofyn presenoldeb ac ymrwymiad adnoddau ar lefel uwch.

Cefnogir MAPPA gan ViSOR. System Technoleg Gwybodaeth genedlaethol yw hon i helpu i reoli troseddwyr sy'n cyflwyno risg ddifrifol o niwed i'r cyhoedd. Mae defnyddio ViSOR yn ei gwneud yn haws rhannu gwybodaeth ar draws sefydliadau a throsglwyddo gwybodaeth allweddol yn ddiogel pan fydd troseddwyr risg uchel yn symud, gan wella unrhyw fesurau amddiffyn y cyhoedd. Mae ViSOR yn golygu bod staff yr Heddlu, y Gwasanaeth Prawf a'r Carchardai'n gallu gweithio ar yr un system TG am y tro cyntaf, gan wella ansawdd a phrydlondeb asesiadau risg ac ymyriadau i atal troseddu.

Cyhoeddir pob adroddiad MAPPA o Gymru a Lloegr ar-lein yn: www.gov.uk

# Ystadegau MAPPA

| Troseddwyr cymwys am MAPPA ar 31 Mawrth 2018 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Categori 1: Troseddwyr rhyw cofrestredig | Categori 2: Troseddwyr treisgar | Categori 3: Troseddwyr peryglus eraill | Cyfanswm |
| Lefel 1 | 828 | 126 | - | 954 |
| Lefel 2 | 18 | 66 | 21 | 84 |
| Lefel 3 | 1 | 2 | 0 | 3 |
| Cyfanswm | 847 | 194 | 21 | 1062 |

| Troseddwyr cymwys am MAPPA yn Lefelau 2 a 3 yn ôl categori (cyfanswm blynyddol) | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Categori 1: Troseddwyr rhyw cofrestredig | Categori 2: Troseddwyr treisgar | Categori 3: Troseddwyr peryglus eraill | Cyfanswm |
| Lefel 2 | 25 | 46 | 18 | 89 |
| Lefel 3 | 1 | 1 | 0 | 2 |
| Cyfanswm | 26 | 47 | 18 | 91 |

| | |
|---|---|
| **Troseddwyr rhyw cofrestredig (RSO) a gafodd rybudd neu euogfarn am dorri gofynion hysbysu** | 20 |

| | |
|---|---|
| **Troseddwyr RSO lle penderfynwyd diddymu eu gofyniad hysbysu gydol oes drwy wneud cais** | 7 |

| Gorchmynion cyfyngu ar gyfer troseddwyr Categori 1 | |
|---|---|
| **Gorchmynion Atal Niwed Rhywiol (SHPO), Gorchmynion SHPO gyda chyfyngiad ar fynd dramor a Gorchmynion Hysbysu a osodir gan y llysoedd** | |
| SHPO | 85 |
| SHPO gyda chyfyngiad ar fynd dramor | 0 |
| Gorchmynion Hysbysu (NO) | 0 |

| | |
|---|---|
| **Nifer y bobl a ddaeth yn destun gofynion hysbysu'n dilyn torri Gorchymyn Risg Rhywiol (SRO)** | 0 |

| Troseddwyr Lefel 2 a 3 wedi eu dychwelyd i'r carchar | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Categori 1: Troseddwyr rhyw cofrestredig** | **Categori 2: Troseddwyr treisgar** | **Categori 3: Troseddwr peryglus eraill** | **Cyfanswm** |
| **Torri trwydded** | | | | |
| Lefel 2 | 7 | 10 | 5 | 22 |
| Lefel 3 | 1 | 0 | 0 | 1 |
| Cyfanswm | 8 | 10 | 5 | 23 |
| **Torri SOPO** | | | | |
| Lefel 2 | 1 | - | - | 1 |
| Lefel 3 | 0 | - | - | 0 |
| Cyfanswm | 1 | - | - | 1 |

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm y Troseddwyr Rhyw Cofrestredig am bob 100,000 o bobl** | 137 |

Cyfrifwyd y ffigur hwn gan ddefnyddio Amcangyfrifon Poblogaeth Canol 2017: Un flwyddyn oed a rhyw ar gyfer Ardaloedd Heddlu yng Nghymru a Lloegr; amcangyfrif o'r boblogaeth breswyl, a gyhoeddir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, ac eithrio rhai o dan ddeg oed.

# Sylwebaeth esboniadol ar y tablau ystadegol

## Cefndir MAPPA

Mae cyfansymiau'r troseddwyr cymwys am MAPPA, yn ôl categori, yn adlewyrchu'r darlun ar 31 Mawrth 2017 (h.y. ciplun a roddir ganddynt). Mae gweddill y data'n ymwneud â'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017.

**(a) Troseddwyr cymwys am MAPPA** – mae nifer o droseddwyr a ddiffinnir o dan y gyfraith fel rhai sy'n gymwys am reolaeth MAPPA, oherwydd eu bod wedi cyflawni troseddau rhyw a threisgar penodol neu oherwydd eu bod ar y pryd yn cyflwyno risg o niwed difrifol, er bod y rhan fwyaf yn cael eu rheoli o dan drefniadau asiantaethol arferol (Lefel 1) yn hytrach na thrwy gyfarfodydd MAPPA. Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys dim ond y troseddwyr cymwys am MAPPA sy'n byw yn y gymuned. Nid ydynt yn cynnwys rhai sydd yn y carchar neu dan glo o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl.

**(b) Troseddwyr Rhyw Cofrestredig (RSO)** – sef y rhai sydd angen hysbysu'r heddlu ynghylch eu henw, cyfeiriad a manylion personol eraill a rhoi gwybod iddynt am unrhyw newidiadau sy'n digwydd wedyn (sef y "gofyniad hysbysu"). Mae methu â chydymffurfio â'r gofyniad hysbysu'n drosedd ac yn arwain at uchafswm cosb o bum mlynedd yn y carchar.

**(c) Troseddwyr Treisgar** – mae'r categori hwn yn cynnwys troseddwyr treisgar a ddedfrydwyd i garchar neu i'w cadw dan glo am 12 mis neu fwy, neu i'w cadw o dan orchymyn ysbyty. Mae hefyd yn cynnwys nifer fach o droseddwyr rhyw nad ydynt yn gymwys i'w cofrestru.

**(d) Troseddwyr Peryglus Eraill** – troseddwyr nad ydynt yn disgyn i'r ddau gategori cymwys am MAPPA arall ond sy'n cyflwyno risg o niwed difrifol ar y pryd sydd angen ei reoli drwy gyfarfodydd MAPPA.

**(e) Torri trwydded** – bydd troseddwyr sy'n cael eu rhyddhau i'r gymuned ar ôl cyfnod yn y carchar yn cael eu rhoi ar drwydded gydag amodau (o dan oruchwyliaeth y gwasanaeth prawf). Os torrir yr amodau hyn, cymerir camau tor-trwydded a gall y troseddwr gael ei alw'n ôl i'r carchar.

**(f) Gorchymyn Atal Niwed Rhywiol (SHPO) (gan gynnwys unrhyw gyfyngiad ychwanegol ar fynd dramor).** Mae Gorchmynion Atal Niwed Rhywiol (SHPO) a Gorchmynion SHPO interim wedi disodli'r hen Orchmynion Atal Troseddau Rhywiol. Eu pwrpas yw amddiffyn y cyhoedd rhag troseddwyr a gafwyd yn euog o drosedd rywiol neu dreisgar, ac sy'n cyflwyno risg o niwed rhywiol i'r cyhoedd, drwy osod cyfyngiadau ar eu hymddygiad. Mae'r gorchymyn yn gofyn bod y troseddwr yn rhoi eu manylion i'r heddlu (yn unol â Rhan 2 Deddf 2003) drwy gydol cyfnod y gorchymyn.

Rhaid i'r llys fod yn fodlon bod angen y gorchymyn i amddiffyn y cyhoedd (neu unrhyw aelodau penodol o'r cyhoedd) yn y DU, neu blant neu oedolion agored i niwed (neu unrhyw blant neu oedolion agored i niwed penodol) dramor, rhag niwed rhywiol gan y troseddwr. Yn achos gorchymyn a wneir ar gais annibynnol gan brif swyddog neu'r Asiantaeth Droseddu Genedlaethol (NCA), rhaid i'r prif swyddog / NCA fod yn gallu dangos bod y troseddwr wedi ymddwyn yn y fath fodd ers ei gael yn euog fel bod angen y gorchymyn.

Y cyfnod lleiaf ar gyfer gorchymyn llawn yw pum mlynedd. Yr isafswm oed yw deg, sef oed cyfrifoldeb troseddol, ond lle mae'r diffynnydd o dan 18 oed dylid ond ystyried cais am orchymyn mewn amgylchiadau eithriadol.

**(g) Gorchymyn Hysbysu** – lle mae angen i droseddwyr rhyw a gafwyd yn euog dramor gofrestru â'r heddlu er mwyn amddiffyn y cyhoedd yn y DU rhag y risg a gyflwynir ganddynt. Gall yr heddlu wneud cais i'r llys am orchymyn hysbysu ar gyfer troseddwyr sydd eisoes yn y DU neu sy'n bwriadu dod i'r DU.

**(h) Gorchymyn Risg Rhywiol (gan gynnwys unrhyw gyfyngiad ychwanegol ar fynd dramor).** Mae'r Gorchymyn Risg Rhywiol (SRO) wedi disodli'r Gorchymyn Risg o Niwed Rhywiol (RoSHO) a gallai gael ei wneud ar gyfer unigolyn sydd heb ei gael yn euog o drosedd rywiol neu dreisgar (nac unrhyw drosedd arall) ond sy'n cyflwyno risg o niwed rhywiol.

Gall y SRO gael ei wneud mewn llys ynadon ar gais yr heddlu neu'r NCA lle mae unigolyn wedi cyflawni gweithred o natur rywiol ac mae'r llys yn fodlon bod yr unigolyn yn cyflwyno risg o niwed i'r cyhoedd yn y DU

neu i blant neu oedolion agored i niwed dramor.

Gall SRO wahardd unigolyn rhag gwneud unrhyw beth a ddisgrifir yn y gorchymyn, gan gynnwys mynd dramor. Rhaid i unrhyw waharddiad fod yn angenrheidiol i amddiffyn y cyhoedd yn y DU rhag niwed rhywiol, neu yng nghyswllt mynd dramor, amddiffyn plant neu oedolion agored i niwed rhag niwed rhywiol.

Mae'n ofynnol i unigolyn gyda SRO hysbysu'r heddlu ynghylch eu henw a'u cyfeiriad cartref o fewn tridiau i wneud y gorchymyn a hefyd rhoi gwybod am unrhyw newidiadau i'r wybodaeth yma o fewn tridiau.

Mae SRO yn gallu para am ddwy flynedd o leiaf ond heb unrhyw uchafswm, ac eithrio unrhyw gyfyngiadau ar fynd dramor sy'n gallu, lle mae'n berthnasol, bara am bum mlynedd ar y mwyaf (ond gall gael ei adnewyddu).

Mae'r safon droseddol o brawf yn parhau i fod yn berthnasol. Gall yr unigolyn sy'n destun y gorchymyn apelio yn ei erbyn a gall yr heddlu neu'r unigolyn dan sylw wneud cais i amrywio, adnewyddu neu ollwng y gorchymyn.

Mae torri SRO yn drosedd a'r uchafswm cosb yw pum mlynedd yn y carchar. Lle mae unigolyn yn torri ei SRO, bydd yn dod yn destyn gofynion hysbysu llawn.

Mae unigolion gyda SRO erbyn hyn yn cael eu cofnodi VISOR fel Person Peryglus Posib (PDP).

### (i) Diddymu gofynion hysbysu gydol oes drwy wneud cais

Mae her gyfreithiol yn 2010 ac ymateb deddfwriaethol o ganlyniad yn golygu bod trefniadau bellach yn eu lle sy'n gadael i droseddwyr rhyw cymwys wneud cais i adolygu eu gofynion hysbysu.

Bydd unigolion gyda gofynion hysbysu amhenodol ond yn dod yn gymwys i ofyn am adolygiad ar ôl bod yn destun gofynion hysbysu amhenodol am o leiaf 15 mlynedd yn achos oedolion, ac 8 mlynedd yn achos troseddwyr ifanc. Daeth hyn i rym ar 1 Medi 2012 ar gyfer troseddwyr sy'n oedolion.

Ar 21 Ebrill 2010, yn achos *R (ar gais F ac Angus Aubrey Thompson) v Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref [2010] UKSC 17,* penderfynodd y Goruchaf Lys gefnogi penderfyniad blaenorol y Llys Apêl gan wneud datganiad o anghydnawsedd o dan a. 4 Deddf Hawliau Dynol 1998 ynghylch gofynion hysbysu am gyfnod amhenodol o dan adran 82 Deddf Troseddau Rhywiol 2003.
Mae hyn wedi'i adfer yn dilyn Gorchymyn Deddf Troseddau Rhywiol (Adfer) 2012 a gyflwynodd y cyfle i droseddwyr gyda hysbysiad amhenodol gael gofyn am adolygiad; deddfwyd hyn ar 30 Gorffennaf 2012.

Ni fydd pobl yn dod oddi ar y gofrestr yn awtomatig. Bydd angen i droseddwyr cymwys gyflwyno cais i'r heddlu'n gofyn am adolygu eu gofynion hysbysu amhenodol. Bydd hyn ond yn digwydd unwaith iddynt gwblhau cyfnod o amser sy'n destun y gofynion hysbysu (yn achos oedolion, 15 mlynedd o ddyddiad yr hysbysiad cyntaf yn dilyn eu rhyddhau o'r carchar am y brif drosedd, ac wyth mlynedd yn achos troseddwyr ifanc).

Bydd pobl sy'n parhau i gyflwyno risg sylweddol yn aros ar y gofrestr am oes, lle bo angen. Os bydd gan droseddwr Orchymyn Atal Troseddau Rhywiol (SOPO / Gorchymyn Atal Niwed Rhywiol (SHPO) rhaid i'r gorchymyn gael ei ollwng o dan adran 108 Deddf Troseddau Rhywiol 2003 cyn y gellir gwneud cais i adolygu eu gofynion hysbysu amhenodol.

Am fwy o wybodaeth, ewch i adran Swyddfa Gartref gwefan gov.uk yn:
https://www.gov.uk/government/publications/sexual-offences-act-2003-remedial-order-2012

# Tudalen Lleol

## MAPPA: Datblygu Arferion

Mae cydweithio asiantaethol yn y bôn yn beth da, gyda partneriaeth yn arloesol wrth greu cyfleoedd i atal troseddu (Pycroft and Gough, 2010). Cyn gweithredu MAPPA nid oedd unrhyw ofyniad cyfreithiol i asiantaethau gydweithredu a arweiniodd at agendau gwahanol a chyfle prin i ddysgu ac adlewyrchu. Sefydlwyd MAPPA gan Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003 a gyfer y 42 ardal cyfiawnder yng Nghymru a Lloegr. Mae'r fforwm MAPPA wedi caniatáu trosglwyddo diwylliant ymhlith asiantaethau statudol, gan annog gweithwyr proffesiynol i fabwysiadau agwedd mwy cadarn, strwythuredig a strategol o fewn eu harfer eu hunain.

Ar ôl cwblhau'r Fframwaith Cymhwyster Prawf, canfûm fod y cyfle i arsylwi ar y broses MAPPA wedi fy ngalluogi i wella fy ngwybodaeth am yr amrywiol asiantaethau – y rhai statudol a'r trydydd sector. Hefyd, roedd yn caniatáu rhwydweithio gyda'r gwahanol gynrychiolwyr o bob asiantaeth unigol, gan osod sylfeini ar gyfer cydweithio yn y dyfodol.

Canfu arolygiad diweddar o fframwaith MAPPA yn 2011 ac eto yn 2015 fod MAPPA wedi gwella asesu a rheoli troseddwyr, gan gynorthwyo diogelu'r cyhoedd yn ogystal a lleihau troseddau. Mae'n debygol bod y broses ei hun wedi cael yr un effaith ar y swyddogion sydd wedi ei rhwymo gan y fframwaith, gan yrru safonau ymarfer o ddydd i ddydd yn uwch.

Yn ystod dyddiau cynnar hyfforddiant Swyddog Prawf, gall fod yn gyfrifol am achos MAPPA fod yn dasg frawychus a heriol. Fodd bynnag gall dynnu ar arbenigedd a chanllawiau'r Cadeirydd tra o dan bwysau fod yn brofiad grymus ir Swyddog, gan sicrhau cynllun rheoli risg cynhwysfawr yn ogystal a defnyddio'r fframwaith Pedwar Piler i hwyluso cyfarfodydd proffesiynol i rheoli achosion o ddydd i ddydd.

O ran cynllunio wrth gefn, mae'r fframwaith yn annog gweithwyr proffesiynol i edrych tu hwnt i rheolaeth MAPPA ar yr unigolion, gan edrych ar sut y gellir mynd i'r afael a risgiau sydd heb eu datrys. Mae hyn yn atgyfnerthu sut y dylai Swyddogion geisio rheoli unrhyw ffactorau risg parhaus ar gyfer yr achosion hynny sy'n agosáu at ddiwedd eu dedfryd ac wedi gadael y fforwm MAPPA.

Mae cofnodi gwybodaeth cynhwysfawr, sy'n cynnwys cofnodion a chamau gweithredu yn gosod y nod o rhan y safonau a ddisgwylir wrth rheoli risg troseddwyr risg uchel, ac mae'r Swyddogion yn ceisio ailadrodd hyn yn eu gwaith.

Er bod sefydlu MAPPA wedi cyflwyno "awdurdodau cyfrifol" a "dyletswydd i awdurdodau gydweithio" nid yw gweithio ar y cyd a rhannu gwybodaeth cyffredinol heb ei rwystrau. Mae'r Cadeirydd yn weithredol wrth ddal asiantaethau i gyfrif – agwedd bwysig a godwyd gan yr arolygiaeth, oherwydd bod eu methiant o ymateb yn gywir neu'n amserol i risgiau a godir yn gymorth i dorri'r rhwystrau a wynebir gan y Swyddogion wrth symud eu hachosion ymlaen.

Fallon Gallagher
Swyddog Prawf

## Ymgynghorydd Lleyg

Rwyf wedi bod yn Ymgynghorydd Lleyg i MAPPA Gogledd Cymru ers Mis Hydref 2016. Mae fy mhenodiad am gyfnod o dair mlynedd i ddechrau, gyda'r opsiwn o dair mlynedd arall wedi hynny.

Er mwyn i mi allu cyflawni fy rôl fel "ffrind critigol" rwy'n mynychu y cyfarfodydd Bwrdd Rheoli Strategol a gynhelir pedair gwaith y flwyddyn, yn ogystal a cyfarfodydd MAPPA ar draws yr ardal. Mewn un cyfarfod clywais rhywun yn holi pwy oeddwn i a dywedwyd wrth y person hwnnw fy mod yno i " wneud yn siŵr win bod yn gwened ein gwaith yn iawn." Nid wyf yn argyhoeddedig bod hwn yn ddisgrifiad cywir o rôl yr Ymgynghorydd Lleyg, ond credaf fod ein presenoldeb yn rhan o cydbwysedd a gwiriadau yn y system. Os oes gennyf bryderon am unrhywbeth byddaf yn eu lleisio. Fy mhrofiad yw bod pawb yn gwneud eu gwaith mewn modd broffesiynol a ymroddedig. Yn bersonol rwyf wedi fy mhlesio gan y wybodaeth diweddaraf sydd gan y pobl hynny sy'n mynychu' cyfarfod am y rhai hynny sydd wedi eu cyfeirio at MAPPA.

Mae cyfarfodydd y Bwrdd Rheoli Strategol yn helaeth. Mae Gogledd Cymru yn cwmpasu chwech awdurdod lleol ac mae pob corff sydd a statws dyletswydd i gydweithredu yn mynychu. Fel y cyfryw, mae gennym yr Heddlu, Gwasanaeth Prawf, Gwasanaeth Carchardai, Gwasanaethau Cymdeithasol, iechyd, tai, Safleoedd Cymeradwy a sefydliadau gwirfoddol

priodol. Mae dod i adnabod pobl yn y cyfarfodydd strategol hyn yn galluogi i benderfyniadau cyflym eu gwneud pan fo angen o ganlyniad i'r perthnasau proffesiynol sydd wedi eu ffurfio.

Rwyf hefyd wedi mynychu tri cynhadledd MAPPA. Roedd un yn gynhadledd Diogelu Plan a'r ddau arall ar gyfer Ymgynghorwyr Lleyg, un ar gyfer y rhai yng Nghymru ac un ar gyfer y rhai yng Nghymru a Lloegr. Y rhwydweithio yw'r than mwyaf diddorol ac addysgiadol ar yr achlysuron hyn. Cefais hefyd well dealltwriaeth o batrwm, gweithredu MAPPA ar draws tirlun Cymru a Lloegr a'r amrywiadau rhanbarthol anochel. Roedd y Siaradwyr yn ddiddorol, yn cwmpasu pynciau megis Adolygiad Achosion Difrifol, gweithio gyda Unigolion sydd wedi cyflawni trosedd rhywiol, Diogelu Data, Rôl yr Ymgynghorydd Lleyg, Mynd i'r afael a Cham-drin Domestig, Arfer Da a ViSOR (cronfa ddata MAPPA a rennir).

Rwyf wedi fy mhlesio gyda'r proffesiynoldeb y wyf yn ei arsylwi ac rwy'n fodlon fod y trefniadau yn gweithio. Wrth gwrs, nid yw popeth yn berffaith, ond credaf fod hiwmor ar sylw at fanyldeb yn cynnal arfer da i Ogledd Cymru. Byddai'r risg i'r cyhoedd ar troseddwyr yn ein hardal yn uwch heb fodolaeth trefniadau MAPPA.

Satya Schofield
Ymgynghorydd Lleyg Gogledd Cymru

# WISDOM

**Tîm WISDOM - Siroedd Gwynedd a Ynys Môn**

O'r cychwyn cyntaf, yn unol ar agenda i wneud y gorau o effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd darparu gwasanaeth, roedd y bwriad o ffurfioli cytundeb cydweithredol sefydledig a chadarn, a oedd eisoes yn bodoli rhwng Heddlu Gogledd Cymru a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol o fewn siroedd gwledig Gwynedd a Môn trwy WISDOM yn gyfle pwysig ac arloesol i rannu adnoddau ac arbenigedd.

Bwriad WISDOM yw i lleihau aildroseddu a rheoli'r risg o niwed a nodwyd drwy dîm aml-asiantaeth, sy'n cynnwys yr Heddlu, Gwasanaeth Prawf, Gwasanaeth Seicolegol Fforensig a phartneriaid lleol eraill megis yr awdurdodau lleol ac Adran Gwaith a Phensiynau.

Mae'n werth nodi bod y cynllun WISDOM wedi'i ddarlunio i gyd-fynd a Threfniadau Aml-asiantaeth ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd (MAPPA) i rheoli troseddwyr o ddydd i ddydd. Mae MAPPA yn parhau i ddarparu'r fframwaith statudol ar gyfer Asiantaethau Cyfiawnder Troseddol lleol a chyrff eraill sy'n delio a throseddwyr i gydweithio mewn partneriaeth.

Trwy ymdrechion cyfunol yr holl bartneriaid, mae'r tîm bellach yn gweithio a charfan dethol o unigolion, rhai statudol ac anstatudol sydd wedi troseddu a / neu mae eu hymddygiad yn rhoi sail rhesymol dros gredu bod tebygolrwydd uchel y byddai'r unigolyn yn aildroseddu ac achosi niwed i eraill.

Y math o droseddwyr sy'n disgyn o fewn diffiniad WISDOM o achosi risg uchel o niwed difrifol yw:

- Troseddwyr rhywiol a troseddwyr treisgar.
- Troseddwyr cam-drin domestig blaenoriaethol
- Unigolion sy'n ymwneud a throseddau difrifol a threfnedig.
- Cenedlwyr tramor risg uchel sydd ymysg grwpiau peryglus eraill.

Mae cydleoli yn Swyddfeydd Penrallt yng Nghaernarfon sy'n eiddo ir awdurdodau lleol wedi sicrhau bod yr Heddlu, Gwasanaeth Prawf, Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwasanaeth Seicoleg Fforensig, Llwybr Anhwylder Personoliaeth a'r tîm adsefydlu carcharorion di-gartref i gyd wedi'u lleoli o fewn yr un adeilad, sy'n galluogi i wybodaeth gael ei rhannu yn ddi-dor ac yn aml; i benderfyniadau eu gwneud ar sail tystiolaeth; a phan fo angen cymryd camau gweithredol amserol.

Datblygiad pwysig arall yw y defnydd a wneir o Tag BUDDI, a ddatblygwyd ar y cyd gan yr Heddlu, Y Gwasanaeth Prawf a'r awdurdodau lleol i helpu rheoli ac adsefydlu troseddwyr tra'n diogelu cymunedau lleol ac unigolion bregus. Mae'r technoleg arloesol yma, na ellir ymyrryd ag, yn darparu parthau cynhwysiant (trwy greu ardaloedd ar fap lle y dylid lleoli y troseddwr yn ystod amseroedd a dyddiau penodol), parthau gwahardd (rhanbarthau sydd wedi eu addasu i sbarduno rhybuddion pan fydd y troseddwr yn mynd mewn i ardal penodol) a mapio lleoliad (sy'n darparu'r awdurdodau monitro gydag adroddiadau mapio a data cudd-wybodaeth). O ganlyniad mae'r Tîm WISDOM yn nawr yn gallu olrhain unigolion 24 awr y dydd ac mae ganddynt fynediad i wybodaeth fanwl gywir am eu symudiadau sy'n sicrhau monitro gwell a goruchwyliaeth cyson.

Ers lansiad swyddogol WISDOM yng Nghlwb Rygbi Caernarfon ar 26ain Ebrill 2018, mae'r tîm yng Ngogledd Orllewin Cymru wedi darparu gwasanaeth rheoli troseddwyr integredig a chadarn, a thrwy hynny wella trefniadau diogelu'r cyhoedd lleol yn ogystal a gwneud y gorau o gydweithio wrth adnabod, asesu a rheoli troseddwyr sy'n peri risg uchel o fygythiad a niwed yn y gymyned lleol.

Rhys Jones
Rheolwr Tîm

Mae holl adroddiadau MAPPA Cymru a Lloegr yn cael eu cyhoeddi ar-lein:

www.gov.uk

## Cysylltwch â ni

PGC Richard Debicki
Prif Gwnstabl Cynorthwyol
Heddlu Gogledd Cymru
Pencadlys yr Heddlu, Glan Y Don,
Bae Colwyn
LL29 8AW
Ffôn: 0300 330 0101

Andy Jones
Cadeirydd MAPPA SMB Gogledd Cymru
Prif Weithredwr Cynorthwyol
Prawf Cymru
Conway Road,
Bae Colwyn
LL29 7AA
Ffôn: 01492 530 600

Liz Swinden
Cydlynydd MAPPA
Heddlu Gogledd Cymru
Uned Diogelu’r Cyhoedd
SSU Llanelwy
Llanelwy
LL17 0HW
Ffôn: 01745 588 649